Academic & Student Support Services
Academic Registrar Simon Wright LLB
Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr
Cofrestrydd Academaidd Simon Wright LLB

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 ODE

Tel *Ffôn* I +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 ODE

Anfonwyd mewn neges ebost at clem.charles@btinternet.com 30 Medi 2016

Annwyl Mr Charles,

Parthed: Ymateb y Sefydliad: Adroddiadau Arholwyr Allanol 2015 – 2016

Ysgrifennaf atoch ar ôl derbyn eich Adroddiad Arholwr Allanol ar gyfer Cymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion (Ail Flwyddyn yn unig).

Yn unol â'n harfer safonol, anfonir copi o'r Adroddiad at yr Ysgol dan sylw, a fydd yn defnyddio'r cynnwys i helpu i lywio ei phroses Adolygiad a Gwelliant Blynyddol. Mae'r Brifysgol yn falch o'ch sylwadau cadarnhaol, gan gynnwys:

1. **eich nodiadau cadarnhaol ynghylch strwythur y rhaglen, safonau academaidd a'r broses asesu;**
2. **eich sylwadau a dynnodd sylw at y ffaith fod cynnig y cwrs dros ddwy flynedd wedi arwain at well trefn yn ogystal â gwell safonau;**
3. **y cynnydd a wnaed gan gadarnhau bod mwy o sylw'n cael ei roi i fentora a sesiynau adborth a gwella iaith**

Ymddengys nad yw eich adroddiad yn codi unrhyw faterion penodol y mae angen ymateb iddynt yn fwy manwl. Yn unol â hynny, nid yw'r Ysgol wedi gofyn am gael ymateb yn ffurfiol i'r Adroddiad.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn foddhaol, a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar gyfer y rhaglen.

Gan mai dyma eich blwyddyn olaf fel Arholwr Allanol, hoffwn ddiolch i chi am eich gwasanaeth, ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich mewnbwn gwerthfawr i'r broses hon.

Er mwyn bodloni disgwyliadau Côd Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), bydd Adroddiad Blynyddol yr Arholwr Allanol a'r Ymateb hwn gan y Sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol, a byddant ar gael yn gyhoeddus.

Drwy ddarparu Ymateb Sefydliad ffurfiol, nid yw'n fwriad gan y Brifysgol orfodi cyfathrebu uniongyrchol rhwng Ysgolion a'u Harholwyr Allanol. Caiff Ysgolion eu hannog i drafod unrhyw faterion manwl sy'n codi yn eu Hadroddiadau gyda'u Harholwyr Allanol, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar ansawdd a safonau dyfarniadau, gan gynnwys newidiadau posibl i raglenni.

Rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich sylwadau ac am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

Yn gywir,

Mr Simon Wright
Cofrestrydd Academaidd

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 0DE
Tel +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0DE
Ffôn +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk